# y dinesydd

Eisteddfod

Atodiad Eisteddfod 2008 | Papur Bro Dinas Caerdydd a'r Cylch | www.dinesydd.com


## Croeso

Ar ran dinasyddion Caerdydd, a phwyllgor Y Dinesydd – ein papur bro – croeso i'r Brifddinas, a chroeso i'r Eisteddfod.

Daw'r Eisteddfod yn ôl i Gaerdydd am y tro cyntaf mewn 30 mlynedd pan ac yn wahanol i'r arfer mae'r Brifwyl wedi'i lleoli yng nghanol y ddinas yn hytrach nag yn y wlad.

Mae'r lleoliad dinesig yn golygu nad ydych ond dafliad carreg o brif atyniadau a gwestai Caerdydd, yn ogystal â theatrau, orielau celf, lleoliadau cerddoriaeth fyw, bariau, llwybrau seiclo glan yr afon, caffis a bwytai.

Ymysg yr atyniadau sydd ar garreg drws y Maes mae Stadiwm y Mileniwm, yr Amgueddfa Genedlaethol ac, wrth gwrs, y Castell ysblennydd lle bydd amryw o weithgareddau celf a chrefft arbennig yn digwydd yn ystod wythnos yr Eisteddfod. Os am newid bach, beth am ddal cwch o Barc Bute i Fae Caerdydd, i ymweld â Chanolfan y Mileniwm, Y Senedd ac arddangosfa boblogaidd Doctor Who.

Bydd y tîm yn ein Canolfan Groeso yn falch o gynnig rhagor o syniadau i'ch helpu chi i wneud y mwyaf o'ch ymweliad â Chaerdydd. Cysylltwch â hwy drwy ffonio 08701 211258 neu piciwch heibio'r Hen Lyfrgell yng nghanol y ddinas - neu galwch heibio i babell Cyngor Caerdydd ar y Maes.

Dymunwn bob hwyl i'r Eisteddfod, mwynhewch eich ymweliad â'r brifddinas a gwnewch y gorau o'r holl bethau sydd i'w gwneud yma.



Criw Ffwrnais Awen, Menter Caerdydd a'r Urdd, fydd yn perfformio *Annie* ar faes yr Eistedfod



## Canolfan Croeso Caerdydd

### Yr Hen Lyfrgell
### Yr Aes
### Caerdydd, CF10 1AH

**Mae croeso cynnes yn eich disgwyl yn ystod yr Eisteddfod yng Nghanolfan Croeso Caerdydd.**

**Mae ein gwasanaethau'n cynnwys:**

- Archebu gwestai
- Gadael bagiau
- Mynediad i'r we
- Siop anrhegion
- Mapiau a chanllawiau

**Llun—Sadwrn: 9.30am tan 6pm**
**Sul: 10am tan 4pm**

**Ffôn: 0870 121 1258**
**E-bost: ymwelydd@caerdydd.gov.uk**
**www.croesocaerdydd.com**

## Castell Caerdydd - Canolfan Dehongli Newydd




Mae'r Ganolfan Ddehongli newydd a agorwyd ar 12 Mehefin 2008, yn adrodd hanes hynod y gwahanol gyfnodau yn hanes y Castell O'r teras awyr agored ar y to, mae'r golygfeydd o'r Castell a thoeau'r ddinas yn wefreiddiol.

Yna, ewch ar daith o gwmpas Ystafelloedd y Castell dan arweiniad un o'n tywyswyr profiadol i weld y moethusrwydd anhygoel.

Bydd y siop a'r caffi newydd yn lle delfrydol i ymlacio a mwynhau awyrgylch y safle hanesyddol hwn.

I roi dechrau gwych i'ch ymweliad, cewch fwynhau'r arddangosfa newydd a gwylio'r cyflwyniad ffilm, gweld y Mur Rhufeinig gwreiddiol a ddatgelwyd yn ddiweddar ac yna archwilio gerddi'r Castell dan arweiniad eich teclyn aml-gyfrwng personol.



# maes c Cerddi, cerddoriaeth, comedi a chraic...

Mae'r tocynnau ar werth nawr ar gyfer digwyddiadau Maes C - sef adloniant gyda'r hwyr a ddarperir mewn pabell fawr ar faes carafanau'r Eisteddfod Genedlaethol, 2-9 Awst 2008. Bydd bar hwyr ar agor bob nos tan 2.00 am. Lleolir maes carafanau'r Eisteddfod ar gaeau chwarae Blackweir yng nghanol y ddinas.

Bydd cerddoriaeth Maes C eleni yn eich cludo nôl i ddyddiau eich ieuenctid coll – ai'r saithdegau, wythdegau neu'r nawdegau oedd eich cyfnod chi? Mae'r uchafbwyntiau llenyddol yn cynnwys: *CaerDydd a Nos*, gyda Heather Jones, Catrin Dafydd ac eraill; *Beirdd yn y Doc*, noson dan fastwn y "barnwr" Emyr Lewis a *Stomp y Steddfod* - 16 o feirdd yn cystadlu am y gorau dan arweiniad y Stompfeistr, Arwel "Pod" Roberts.

Gellir prynu tocynnau MaesC ar y we - www.eisteddfod.org.uk neu drwy'r Llinell Docynnau ar 0845 122 1176. Gellir prynu tocynnau *CaerDydd a Nos* a'r *Stomp* gan yr Academi yn ogystal ar 029 2047 2266. Rhoddir cynnig arbennig am docyn wythnos - £50 yn unig (arbed dros £10).:

**Mynediad am Ddim**
**Nos Sadwrn 2 Awst, 8.00pm**
Y flwyddyn – 1974. Y lle – Coleg y Brifysgol, Aberystwyth. Dyna lle cychwynodd Mynediad am Ddim eu taith cerddorol. Ymunwch â nhw heno i ganu cân am y dyddiau da.
*Tocynnau £8 / Llinell docynnau: 0845 122 1176*

**Delwyn Sion a'r Band**
**Nos Sul 3 Awst, 8.00pm**
Noson yng nghwmni un o sylfaenwyr Hergest, grŵ p a sefydlwyd yng Ngwersyll yr Urdd Glan Llyn yn 1971. Bydd y gerddoriaeth heno yn eich swyno nôl i'r oes aur.
*Tocynnau £8 / Llinell docynnau: 0845 122 1176*

**CaerDydd a Nos**
**Nos Lun 4 Awst, 8.00pm**
24 awr trwy'r Brifddinas mewn un noson. Cerddoriaeth a barddoniaeth gyda Heather Jones, Catrin Dafydd, Gwyneth Glyn, Rhys Iorwerth ac Owain Rhys. Trefnir y noson ar y cyd rhwng Academi a Chanolfan Ysgrifennu Tyˆ Newydd.
*Tocynnau: £8 / Llinell docynnau: 0845 122 1176 / Academi: 029 2047 2266*

**Nôl i'r Cwm**
**Nos Fawrth 5 Awst, 8.00pm**
Huw Chiswell – neu 'Chiz' – dewin yr allweddellau, seren bop ac un o *heart-throbs* mwyaf Cymru yr 80au a fydd yn hudo pawb â'i glasuron poblogaidd.
*Tocynnau: £8 / Llinell docynnau: 0845 122 1176*

**Beirdd yn y Doc**
**Nos Fercher 6 Awst, 8.00pm**
Y Prifardd Emyr Lewis yw'r Barnwr fydd yn dwyn Eurig Salisbury, Emyr Oernant, Iwan Rhys, Y Prifardd Dafydd John Pritchard, Hywel Griffiths, Aneirin Karadog ac eraill o flaen eu gwell. Trefnir y noson gan Barddas gyda chefnogaeth r Academi.
*Tocynnau: £5 / Llinell docynnau: 0845 122 1176*

**Steve Eaves 9 Bach**
**Nos Iau 7 Awst, 8.00pm**
Noson o flŵs, jazz a chanu gwerin cyfoes yng nghwmni Steve Eaves a'r grŵp gwerin 9 Bach gyda'r lleisydd hudolus Lisa Jên.
*Tocynnau: £8 / Llinell docynnau: 0845 122 1176*

**Stomp y Steddfod**
**Nos Wener 8 Awst, 8.00pm**
Noson fawreddog o farddoniaeth, chwerthin a chardiau lliw. Un bardd ar bymtheg yn cystadlu am y gorau i ennill y stôl, dan arweiniad y Stompfeistr Arwel "Pod" Roberts.
*Tocynnau: £8 / Llinell docynnau: 0845 122 1176*

**Hanner Pei**
**Nos Sadwrn 9 Awst, 8.30pm**
Nawr mae'r 90au yn retro. Dathlwch bod yn grwfi gyda Hanner Pei. Yn eu geiriau nhw: "trowch eich *speakers* i fyny, gwisgwch eich Marigolds a thynwch eich trowsus i lawr am haliad nostalgic".
*Tocynnau: £10 / Llinell docynnau: 0845 122 1176*


**Yn priodi cyn bo hir?**
Wedi trefnu'r adloniant?
Naddo?

Felly,
**Gwasanaethau 007**
amdani !
DISGO DWYIEITHOG
ASIANT TWMPATH
SYSTEM SAIN I AREITHIAU
RIG GOLEUO I GRŴPIAU BYW

Cysylltwch â Ceri ar
07774 816209 neu
029 20813812
ceri33@btopenworld.com

Ar gael dros Gymru benbaladr
a thu hwnt


**Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Caerdydd 2008**

**Darlith Flynyddol Cymdeithas Addysg y Gweithwyr**

**Siaradwr: Yr Athro, Syr John Meurig Thomas**

***"Lloyd George: ymchwil gwyddonol ac addysg uwch"***

**Ym Mhabell y Cymdeithasau ar faes yr Eisteddfod**

**Dydd Mercher, Awst 6ed. 2008 am 2.00 o'r gloch y prynhawn**

**(Gwasnaeth cyfieithu ar y pryd i'r Saesneg ar gynnig)**

# Steddfodau 1960 a 1978

Nid 'Ble mae Meifod?' ond 'Ble mae Soffi?' oedd cwestiwn criw o Uwchaled wrth chwilio am leoliad Steddfod 60 yng Ngerddi Sophia. Ond fe ffeindiodd y Frenhines ei ffordd yno a dyna'r tro olaf iddi gael gwahoddiad i'r Brifwyl. Cystadleuydd oeddwn i y flwyddyn honno - ar Adrodd 18-25. Clywais gan gyd-gystadleuydd mod i wedi cael llwyfan. Ond toeddwn i ddim. Nid 'Alun' ond 'Aled' oedd yr enw cywir; rhyw Aled Gwyn. Tybed ble mae hwnnw bellach?!

Yn 1978, Steddfod Emyr Currie [Emyr Currie-Jones oedd Cadeirydd y Pwyllgor gwaith] rhaid oedd teithio allan o'r ddinas i Bentwyn. Gwn fod Emyr yn sgrifennu ei atgofion yn Rhaglen y Dydd eleni ac mai ei atgof cyntaf yw am gyhoeddi'r Dinesydd yn ddyddiol tros yr Ŵyl honno.

Bu'n Steddfod ddigon prysur i minnau - o helpu i sgriwio seddi i'w lle yn yPafiliwn, i fod yn Arweinydd Llwyfan (gyda Havard Gregory, Huw Jones a Sulwyn Thomas), i fod yn Gadeirydd y Pwyllgor Cerdd Dant, i gynhyrchu'r ddrama leol 'Nos Ystwyll' yn Theatr y Sherman ac i ganu'r Cywydd Croeso yn Seremoni Croesawu'r Cymry ar Wasgar yn un o Bedwarawd y Wenallt. A phob dydd a gyda'r nos i sylwebu ar seremonïau'r Orsedd a chyflwyno rhaglenni o'r maes i'r BBC.

Dyw record Caerdydd am ddarganfod teilyngdod am awdlau tros y blynyddoedd y cynhaliwyd yr Eisteddfod yma ddim yn glodwiw. A doedd 1978 ddim yn eithriad. 'Neb yn deilwng' oedd hi eto a siom y gynulleidfa yn amlwg. Yna daeth Geraint o Gil-y-mynydd i'r llwyfan i ganu'r 'Marchog' a throi'r siom yn orfoledd.

R Alun Evans

Angen anrheg ar gyfer babi newydd, bedydd neu ben-blwydd?
Dowch i ymuno â Bili a'i griw ar wefan

- gwefan newydd sy'n gwerthu crysau-T ffasiynol, beiddgar a hwyliog ar gyfer y babi modern Cymreig. Mae'r dillad o ddeunydd masnach deg, yn cynnig digon o liw, graffeg trawiadol a chynlluniau ffraeth – perffaith i fabanod a phlant ifanc ag agwedd! Dowch i weld!

Galwch heibio'n stondin yn yr Eisteddfod Genedlaethol i fwynhau cyfres o sgyrsiau arbennig:

national museum wales
amgueddfa cymru

Dydd Llun 4 Awst 3pm
**Celf y Dyfodol** gan yr artist Iwan Bala ac Ann Jones, Curadur Prosiectau Casgliad, Cyngor Celfyddydau Lloegr

Dydd Mawrth 5 Awst 3pm
**Ein Canmlwyddiant** gyda'r Gweinidog Treftadaeth Rhodri Glyn Thomas

Dydd Mercher 6 Awst 3pm
**Gwyddoniaeth y Dyfodol** – ar y cyd gyda Phrifysgol Caerdydd

Dydd Gwener 8 Awst 3pm
**Sir Benfro mewn celf** – rhagolwg o Oriel y Parc: oriel gelf newydd Tyddewi

Dydd Sadwrn 10 Awst 3pm
**Hanes y Dyfodol** – Dr Beth Thomas yn trafod gorffennol a dyfodol Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru

Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

**www.amgueddfacymru.ac.uk**

02920 611222
www.thai-lounge.co.uk

LOLFA THAI

lolfa thai lounge

**CROESO MAWR I**
**DŶ BWYTA THAI NEWYDD**
**GOGLEDD CAERDYDD**

DEWCH I FLASU BWYD THAI TRADODIADOL MEWN AWYRGYLCH MODERN A CHYFORDDUS

73B STRYD MERTHYR , EGLWYS NEWYDD, CAERDYDD
(UWCHBEN BWYTY PIZZERIA VILLAGIO)

**AMSERAU AGOR** (* archeb olaf)
SWPER : LLUN - SADWRN 6.30y.h - 10.45y.h *
CINIO :
MAWRTH - SADWRN 12.00y.p - 2.00 y.p (£9.95 AM 2 GWRS)

**FFONIWCH 02920 611222**
**NEU EWCH I'R WEFAN www.thai-lounge.co.uk**

# DATHLU PEN-BLWYDD Y GYMRAEG YM MHRIFYSGOL CAERDYDD

125 o flynyddoedd yn ôl, cafwyd Siarter Frenhinol a newidiodd wyneb addysg yng Nghymru drwy sefydlu Coleg Prifysgol De Cymru a Mynwy – Prifysgol Caerdydd, bellach. Penodwyd John Viriamu Jones yn Brifathro cyntaf, yn 27 oed, ac agorwyd y Coleg ar 24 Hydref 1883 gyda 13 o staff academaidd a 151 o fyfyrwyr. Erbyn heddiw mae'r coleg bach hwnnw wedi tyfu yn un o'r prifysgolion mwyaf ei pharch a mwyaf poblogaidd ym Mhrydain, gyda 5,674 o staff a 25,997 o fyfyrwyr. Yn wir, yn ddiweddar fe'i rhestrwyd ymhlith y 100 prifysgol orau yn y byd.
O'r cychwyn cyntaf, roedd yn y Brifysgol yng Nghaerdydd Adran y Gymraeg. Hon yw un o'r adrannau Cymraeg cyntaf oll, ac yma mae'r Gadair Gymraeg sefydledig hynaf yng Nghymru. Hon hefyd oedd yr adran Gymraeg gyntaf i ddysgu'r pwnc trwy gyfrwng y Gymraeg. Am dros ganrif y mae wedi cyfrannu'n helaeth i fywyd Cymru ac wedi bod yn gartref i ysgolheigion a llenorion amlwg, gan gynnwys W. J. Gruffydd, G. J. Williams, A. O. H. Jarman a Saunders Lewis. Dros y blynyddoedd, mae Ysgol y Gymraeg ym Mhrifysgol Caerdydd wedi datblygu i fod y fwyaf yng Nghymru, a chanddi 38 o staff llawn-amser.

Mae'r Ysgol yn rhoi pwyslais mawr ar roi'r Gymraeg a'i diwylliant mewn cyd-destun rhyngwladol. Mae'n gartref i'r Ganolfan Uwchefrydiau Cymry America ac i'r Uned Ymchwil Cynllunio, Iaith a Pholisi, sy'n cymharu'r sefyllfa ieithyddol yng Nghymru â'r sefyllfa mewn rhychwant eang o wledydd ar draws y byd. Cynhelir y Gynhadledd Faledi Ryngwladol yma eleni, tra bo cysylltiadau cyffrous ar fin dechrau gyda Phrifysgol Patagonia yn Nhrelew ac â Phrifysgol Nanjing yn China. Mae ein Cynorthwywyr Ymchwil yn dod o Batagonia, Canada, UDA, Siapan – a Sir Fôn! – a phob un ohonynt yn siarad Cymraeg yn rhugl.


Ond wedi dweud hynny, Cymru a Chaerdydd yw ein blaenoriaeth. Ers blynyddoedd bellach, rydym wedi bod yn cydweithio â'r Amgueddfa Werin i gynnig MA mewn Astudiaethau Gwerin; ers tair blynedd rydym wedi bod yn gweithredu'r Cynllun Sabothol Cymraeg ar ran Llywodraeth y Cynulliad; ac mae ein Canolfan Cymraeg i Oedolion yn gwasanaethu'r gymuned leol drwy ddysgu'r iaith i dros 1,700 o oedolion yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg.

Os hoffech ragor o wybodaeth am yr Ysgol, yna ewch at ein gwefan newydd sbon - http://www.caerdydd.ac.uk/cymraeg/ neu dewch i ymweld â ni ar faes yr Eisteddfod. A gawn ni fanteisio ar y cyfle hwn, hefyd, i ddiolch i'n holl gyfeillion yng Nghaerdydd a'r cylch am eu cefnogaeth dros y blynyddoedd – mewn darlithoedd cyhoeddus, seminarau, cynadleddau. Edrychwn ymlaen at eich gweld dros y 125 mlynedd nesaf!

*Sioned Davies*
*a staff Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd*

# Hanes y Gymraeg yng Nghaerdydd

Mae Menter Caerdydd wedi creu taith gerdded sy'n canolbwyntio ar ddatblygiad yr iaith yn y brifddinas. Mae'r daflen a phodcast o'r daith ar gael i'w lawrlwytho o wefan Menter Caerdydd, www.mentercaerdydd.org.
P'run ai ydych wedi byw yng Nghaerdydd gydol eich bywyd, neu'n ymwelydd i'r Eisteddfod, rydych yn sicr o ddysgu rhywbeth na wyddech erioed o'r blaen. Mwynhewch eich taith!




# Darganfod Caerdydd ar Droed



Tra bod yr Eisteddfod yma, beth am fanteisio ar y cyfle i ddarganfod mwy am ein dinas? Mae Llwybr Canmlwyddiant Caerdydd yn ffordd wych o archwilio canol y ddinas ar droed, a darganfod mwy am sut y daeth Caerdydd i fod y ddinas a welwn heddiw.

Mae'r Llwybr yn cynnwys rhai o dirnodau enwocaf a mwyaf hanesyddol Caerdydd, yn ogystal ag ambell i gyfrinach. 2.3 milltir o hyd yw'r daith, sy'n dechrau tu fas i'r Ganolfan Croeso yn yr Hen Lyfrgell. Gallwch ymuno â hi unrhyw le ar hyd y llwybr, gan weld cymaint - neu cyn lleied - ag y dymunwch.
Mae'r arweinlyfr a map ar gael am ddim o'r Ganolfan Croeso neu babell Cyngor Caerdydd ar y Maes, neu www.caerdydd.gov.uk